

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y- bont ar Ogwr

Adroddiad Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Gwasanaethau Plant

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad gwerthuso perfformiad o wasanaethau plant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ('yr awdurdod lleol') ym mis Mai 2022.

Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth iddo arfer ei ddyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru. Gwnaethom geisio ateb y cwestiynau canlynol, sydd wedi'u halinio o dan egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1. Pobl – llais a rheolaeth

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod gan bobl lais, a pha mor dda y mae'n asesu anghenion unigolion am ofal a chymorth (gan gynnwys plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso), neu gymorth yn achos gofalwr?

2. Atal

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau nad yw anghenion yn cynyddu wrth sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl?

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cadw cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer plant dan adolygiad, gan gynnwys lle mae angen diwallu anghenion y plentyn i'w amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod?

3. Llesiant

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cadw plant yn ddiogel ac yn hyrwyddo llesiant mewn perthynas â chyflawni cyfrifoldebau statudol?

4. Partneriaethau ac integreiddio

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod anghenion plant am ofal a chymorth (gan gynnwys y rhai y mae angen eu diogelu a'u hamddiffyn) yn cael eu diwallu a'r effaith ar ganlyniadau i bobl?

Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys y canlynol:

- gwerthusiad o brofiad plant ar adeg yr arolygiad gwerthuso perfformiad

- gwerthusiad o brofiad pobl a'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni wrth ymwneud â gwasanaethau
- tystiolaeth bod yr awdurdod lleol a phartneriaid wedi dysgu gwersi o'u profiadau diweddar a'r camau a gymerwyd / cynlluniau ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau
- ystyried sut mae'r awdurdod lleol yn rheoli cyfleoedd a risg wrth gynllunio a darparu gofal cymdeithasol ar lefelau unigol, gweithredol a strategol

Cyd-destun a chrynodeb

Fel llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi wynebu heriau o ran darparu gofal cymdeithasol. Mae llawer o'r pwysau a brofir gan wasanaethau plant yr awdurdod lleol yn adlewyrchu'r cyd-destun cenedlaethol o adfer ar ôl pandemig, gan gynnwys lefelau uchel o alw a chymhlethdod cynyddol anghenion pobl. Roedd diffygion critigol yn y gweithlu mewn perthynas â recriwtio a chadw staff gwaith cymdeithasol, ac absenoldeb staff, wedi arwain at golli staff profiadol ac at farchnad gystadleuol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol asiantaeth a gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a gorddibyniaeth arnynt.

Amlygodd archwiliad sicrwydd AGC a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2021 rai o'r pwysau hyn a'r risgiau gwasanaeth posibl, a llywiodd y canfyddiadau hynny'r arolygiad hwn.

Mae penllanw'r pwysau hyn ynghyd â diffygion mewn rhai systemau a phrosesau, gan gynnwys trefniadau goruchwyllo gan reolwyr, wedi cael effaith andwyol sylweddol ar gyflenwi rhai gwasanaethau plant ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Nodwyd pryderon mewn perthynas â phrydlondeb gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yr awdurdod lleol a'r gallu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant plant a theuluoedd.

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn ar adeg pan oedd uwch-arweinwyr, rheolwyr a gwleidyddion wedi cydnabod y camau gweithredu ac adnoddau sylweddol sydd eu hangen i wella cysondeb ac ansawdd gwasanaethau plant ac wedi sefydlu cynllun ymateb critigol mewnol, wedi'i alinio â chofrestrau risg cyfarwyddiaeth a chorfforaethol yr awdurdod lleol, i oruchwyllo'r newidiadau adferol oedd eu hangen ar unwaith mewn perthynas â'r diffygion a nodwyd yn eu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Mae ymateb yr awdurdod lleol wedi cynnwys comisiynu rhaglen sicrhau ansawdd annibynnol i ddarparu asesiad o gryfderau a meysydd i'w datblygu yn y gwasanaethau plant ac i lywio datblygiad ymarfer, adleoli tîm rheoli gofal,¹ ac adleoli staff o bob rhan o'r gwasanaeth/cyngor i ddarparu cymorth ychwanegol i'r tîmau hynny sy'n profi'r pwysau mwyaf. Mae goruchwyliaeth a phenderfyniadau

¹ Tîm rheoli gofal yn cynnwys tîm o weithwyr asiantaeth, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, dirprwy reolwr tîm a rheolwr tîm, sy'n gweithio fel tîm.

rheolwyr wedi'u hatgyfnerthu gan oruchwyliaeth gynyddol mewn meysydd â blaenoriaeth, a chasglu data gwybodaeth perfformiad a chraffu arno yn well. Mae cynllunio i ad-drefnu a gwella gwytnwch a chynaliadwyedd y gwasanaeth yn y tymor hir hefyd yn cael ei ddatblygu.

Ym mis Mawrth 2022, sefydlodd yr awdurdod lleol Fwrdd Strategol Gwella Canlyniadau Gofal Cymdeithasol Plant, a gaiff ei gadeirio gan Brif Weithredwr y Cyngor ac a gefnogir gan gynghorydd annibynnol. Mae'r bwrdd yn darparu goruchwyliaeth, her a chyfeiriad rheolaidd er mwyn galluogi cyflawni cynllun strategol yr awdurdod lleol a meysydd i'w datblygu.

Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau i ddechrau dysgu ar unwaith yn dilyn digwyddiadau critigol diweddar. Mae'r digwyddiadau hyn wedi'u huwch gyfeirio i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg, sy'n gyfrifol am oruchwyllo adolygiadau ymarfer plant amlasiantaeth. Rhoddodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg grŵp llywio gweithredol ar waith i lywio adolygiad cyflym o ddiogelu ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae diben y grŵp llywio wedi'i ymestyn i gynnwys rôl sicrwydd ar draws y rhanbarth.

Canfu'r arolygiad hwn fod amrywiaeth yn ansawdd y gwasanaethau a'r arferion gwaith cymdeithasol a ddarperir i blant a theuluoedd. Mae profiadau plant a theuluoedd wedi elwa ar weithgarwch gwella pendant mwy diweddar a nodwyd drwy archwiliadau ac adolygiadau mewnol ac allanol. Fodd bynnag, tan ychydig yn ôl, nid oedd rheolwyr yn ddigon ymwybodol o faint ac effaith y diffygion yn y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Mae angen cynnydd cynaliadwy yn gyflym yn awr ar draws ystod o feysydd darparu gwasanaethau os yw'r awdurdod lleol am gyflawni ei fusnes craidd o leihau risgiau i blant sydd angen cymorth ac amddiffyniad, a hyrwyddo eu llesiant, yn gyson. Bydd cymhwyso prosesau sicrhau ansawdd effeithiol yn hanfodol i sicrhau a chynnal gwelliannau ac i sicrhau prydlondeb, ansawdd a chysondeb gwasanaethau i blant a theuluoedd. Bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau ei hun am gyflymder, ansawdd, darpariaeth ac effaith ei weithgarwch gwella.

Canfyddiadau allweddol

Cyflwynir canfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o dystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gall manylion sy'n ymwneud â meysydd i'w gwella a oedd yn ofynnol mewn adroddiadau blaenorol AGC hefyd ymddangos yn yr adroddiad hwn i bwysleisio'u perthnasedd a'u pwysigrwydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gofynion blaenorol ar gyfer gwelliannau nad ydynt wedi eu bodloni eto ond nid oes sôn amdanynt yn yr adroddiad hwn yn parhau'n berthnasol ac nid ydynt yn cael eu dirymu trwy eu hepgor yma.

Pobl

Cryfderau:

Mae ymarferwyr yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd iaith, cyfathrebu a lefel o aeddfedrwydd emosiynol a datblygiadol yn cael eu hystyried a'u harchwilio gan ymarferwyr i gael barn plant a'i hwyluso.

Roedd y cofnodion gofal cymdeithasol a welwyd yn cadarnhau bod ymarferwyr yn gyffredinol yn cynnal cyswllt/ymweliadau rheolaidd â phlant a theuluoedd. Mae rhai templedi cofnodion yn cynnwys awgrymiadau ynghylch p'un a gafodd y plentyn ei weld / ei weld ar ei ben ei hun ac, os na, y rhesymau dros hyn. Gwelsom rai enghreifftiau o ymarferwyr yn gweithio'n gyson ac ar y cyd â phlant a theuluoedd. Mae'r gweithlu'n ymdrechu'n ddiflino i gefnogi plant a theuluoedd; fodd bynnag, mae'n amlwg bod y galw yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r awdurdod lleol yn ystyried hawliau'r plant i gynnig eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Gwelsom enghreifftiau o blant yn cael cynnig mynediad i wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Y tri phrif fater i blant / pobl ifanc sy'n defnyddio eiriolaeth sy'n seiliedig ar faterion yw cymorth mewn cyfarfodydd, materion lleoli a materion cyswllt. Mae cysylltiadau da rhwng y darparwr eiriolaeth a gomisiynwyd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y darparwr eiriolaeth wedi darparu sesiynau gloywi ymwybyddiaeth o eiriolaeth i ymarferwyr.

Mae swyddog rhianta a chyfranogiad corfforaethol wedi'i benodi y mae ei rôl yn cynnwys hwyluso gwell ymgysylltiad a chyfranogiad plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Mae creu'r tîm plant sydd wedi bod mewn gofal yn ddiweddar yn cael ei werthfawrogi gan y staff ac yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n cefnogi gwell ffocws ar sefydlogrwydd a hwyluso perthnasoedd proffesiynol gyda phlant a phobl ifanc. Disgrifir cyfluniad y gwasanaeth hefyd fel gwella'r flaenoriaeth broffesiynol a roddir i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, gyda ffocws gwell ar bontio, gan gynnwys cysylltiadau cryfach rhwng y tîm 16+ a'r tîm plant anabl. Roedd creu'r tîm plant â phrofiad o ofal wedi arwain at leihad yn llwythi achosion rhai ymarferwyr yn y canolfannau diogelu lleol.

Mae llesiant, recriwtio a chadw'r gweithlu yn flaenoriaeth allweddol i'r awdurdod lleol. Mae wedi nodi a chymryd camau i sefydlogi a chefnogi'r gweithlu ac mae'n gweld hyn yn hanfodol i fusnes, gan danategu ei allu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a'i agenda wella. Mae wedi cyflogi mwy o staff nag sydd angen mewn rhai timau yn ddiweddar ac mae'n cyflogi staff asiantaeth i leihau ôl-groniadau a phwysau ar lwythi gwaith yn y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, gan arwain at lai o lwythi achosion. Dywedodd rhai staff a rheolwyr eu bod wedi profi gwelliant yn y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ond disgrifiwyd hyn fel rhywbeth diweddar iawn, oherwydd, tan yn ddiweddar, yr oedd angen i ganolfannau diogelu'r ardaloedd gefnogi'r tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth drwy gymryd achosion yn

uniongyrchol o'r atgyfeiriad er mwyn helpu i leihau'r ôl-groniad o bobl sy'n aros am wybodaeth, cyngor neu gymorth. Cymerwyd camau i gynyddu gallu'r swyddogion adolygu annibynnol.

Mae uwch-arweinwyr a rheolwyr yn parhau i ganolbwyntio'n briodol ar recriwtio a chadw'r gweithlu. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd yn ehangu ei ddull recriwtio a chadw, gyda ffocws ar 'dyfu ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain', trwy noddi cymwysterau ffurfiol, hyfforddeiaethau a secondiadau. Mae hyn yn bwysig wrth helpu i fynd i'r afael â materion recriwtio. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (93%) a gwblhaodd ein harolwg staff eu bod yn cael cymorth i wneud eu gwaith. Dywedodd 71% eu bod yn gallu ymdopi â'u llwyth gwaith. Mae cynllun datblygu'r gweithlu ar waith ac mae arwyddion cynnar bod hyn yn helpu i wella recriwtio a chadw.

Beth sydd angen ei wella:

Mae angen cryfhau'r cyfleoedd i geisio barn plant yn gyson a'u cofnodi'n briodol. Canfuom fod ansawdd y cofnodi mewn perthynas â chael darlun o lais y plentyn a'i brofiad bywyd yn amrywiol ac yn anghyson. Gwelsom gyfleoedd a gollwyd i goladu a chael barn y plentyn, gan gynnwys cael barn y plentyn cyn adolygiadau statudol, a diffyg ymgynghori â phlant a phobl ifanc ynghylch eu hoffterau o ran dyddiadau ac amseroedd adolygiadau statudol. Dywedwyd wrthym fod gwaith wedi dechrau i wella cofnodi mewn perthynas â brodyr a chwiorydd. Rhaid bod yn ofalus pan fo plant unigol yn rhan o grwpiau o frodyr a chwiorydd i sicrhau nad yw llais unigol a phrofiad bywyd y plant yn cael eu colli. Mewn rhai enghreifftiau, canfuwyd gorddibyniaeth ar farn rhieni.

Prin oedd y dystiolaeth i gadarnhau bod plant wedi elwa ar waith uniongyrchol i lywio asesu parhaus a symud cynllunio gofal a chymorth yn ei flaen. Mae angen rhagor o waith i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer gwaith uniongyrchol i lywio gwaith asesu a chynllunio gofal a chymorth. Dylid cefnogi plant sydd â phrofiad o ofal i ddeall hanes eu bywyd a'r rhesymeg dros y penderfyniadau a wneir yn eu cylch. Er bod y defnydd o gronolegau a genogramau wedi gwella, mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau cysondeb ac ansawdd gwaith.

Mae angen rhagor o waith hefyd i helpu i sicrhau bod pobl yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt yn gyson ac yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Cawsom 93 o ymatebion i'n harolwg pobl (pobl sy'n derbyn gwasanaethau neu eu cynrychiolwyr). Roedd 33% yn teimlo eu bod yn cael eu trin 'yn anaml' neu 'byth' ag urddas a pharch. Roedd 47% yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt 'yn anaml' neu 'byth'. Yn ystod ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2021, cawsom ymatebion amrywiol gan bobl am eu profiad o gysylltiad â'r awdurdod lleol a pha mor dda yr oeddent yn teimlo y gwrandawyd arnynt a'u bod yn cael eu parchu. Mae hwn yn parhau i fod yn faes i'w wella.

Gwelsom rieni/aelodau o'r teulu yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ac asesiadau. Dywedodd rhai rhieni wrthym y bu oedi cyn iddynt dderbyn cofnodion/dogfennau yn dilyn cyfarfodydd/adolygiadau. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r angen i gryfhau cymorth busnes ar gyfer ymarferwyr i gynorthwyo gyda hyn. Dylai ystyried sut y gellid cryfhau ei systemau i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu â'r holl bartïon perthnasol mewn modd amserol a bod digon o oruchwyliaeth mewn perthynas â'r mater hwn.

Roedd tystiolaeth amrywiol o oruchwyliaeth gan reolwyr mewn perthynas â chofnodion gofal cymdeithasol plant. Disgrifiodd ymarferwyr sut roedd cyfyngiadau amser a blaenoriaethu gwaith wedi effeithio'n andwyol ar eu gallu i gwblhau cofnodion gofal cymdeithasol mewn modd amserol. Gwelsom gofnodion a oedd wedi'u creu peth amser ar ôl y digwyddiadau. Rhaid darparu cyfleoedd a chymorth digonol i ymarferwyr i'w galluogi i gofnodi gwybodaeth o ansawdd yn gyson mewn modd amserol. Mae angen cryfhau systemau ar gyfer goruchwyllo rheolwyr i sicrhau monitro cyson ac effeithiol o ymlyniad at bolisiau a gweithdrefnau, ac amserlenni mewn perthynas â bodloni gofynion statudol a chadw cofnodion.

Roedd cofnodion goruchwyllo llwyth gwaith yn gryno ar y cyfan gydag ychydig iawn o dystiolaeth o sgysiau myfyriol, ffocws clir, dadansoddiad, camau gweithredu, ac amserlenni ar gyfer camau gweithredu. Gall hyn fod yn fater sy'n ymwneud a chofnodi, ond yn absenoldeb tystiolaeth i awgrymu fel arall, collwyd y cyfleoedd hyn i gefnogi datblygiad ymarfer ac i ddadansoddi effeithiolrwydd ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i blant a theuluoedd.

Nododd yr awdurdod lleol fod ansawdd ei arferion yn rhy anghyson ac mae wedi rhoi ffocws priodol ar 'gael y pethau sylfaenol yn iawn' i greu diwylliant cefnogol a rennir sydd ei angen ar ymarferwyr, ac i gefnogi eu hyder a'u cymhwysedd. Mae hefyd yn anelu at gefnogi rheolwyr yn eu cyfrifoldebau goruchwyllo. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflwyno hyfforddiant gorfodol yn canolbwyntio ar bethau sylfaenol, sydd yn y broses o gael ei gyflwyno. Rhaid cyflwyno'r hyfforddiant hwn fel mater o frys.

Er bod yr awdurdod lleol wedi gwneud gwaith sylweddol mewn perthynas â gweithredu model ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, nododd fod y pandemig a'r problemau recriwtio a chadw wedi'i gwneud yn anodd sefydlu'r model hwn. Mae bellach wedi penderfynu buddsoddi mewn gweithredu Arwyddion Diogelwch² fel model arferion ar y cyd. Bydd y gwaith hwn yn cymryd amser i'w wreiddio a bydd angen ei symud ymlaen gydag ymgysylltiad partneriaid i hyrwyddo ymagwedd a dealltwriaeth gyffredin o risgiau, cryfderau a rhwydweithiau diogelwch.

² Mae dull Arwyddion Diogelwch yn ddull sy'n seiliedig ar berthynas, wedi'i drefnu ar gyfer diogelwch, tuag at arferion amddiffyn plant, a grëwyd drwy ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio i weithwyr proffesiynol a theuluoedd wrth adeiladu diogelwch ystyrion ar gyfer plant agored i niwed ac mewn perygl. Mae'r dull yn ehangu'r ymchwiliad i risg i gwmpasu cryfderau teuluoedd ac unigolion, cyfnodau o ddiogelwch a gofal da y gellir adeiladu arnynt i sefydlogi a chryfhau sefyllfa plant a theuluoedd. Mae'r dull hwn wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio o'r cychwyn cyntaf hyd at gau achosion er mwyn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol ym mhob cam o'r broses amddiffyn plant.

Er bod rhaglen hyfforddi ar waith, nodwn mai ychydig iawn o gyrsgiau/sesiynau hyfforddi sy'n orfodol. O ystyried y pwysau ar y gweithlu, mae risg na fydd hyfforddiant yn cael ei flaenoriaethu gan ymarferwyr. Felly, mae'n bwysig bod systemau ar waith i sicrhau bod staff yn ddigon gwybodus a medrus i gyflawni'r tasgau y maent yn eu cyflawni, a'u bod yn cael cyfleoedd/modd i ymgymryd â datblygiad proffesiynol, myfyrio, ac ymgorffori dysgu.

Mae'r awdurdod lleol yn adolygu ei gynllun taliadau uniongyrchol i ehangu'r cynnig. Er i ni weld tystiolaeth o'r cynnig o daliadau uniongyrchol, clywsom fod rhieni'n teimlo bod yn rhaid iddyn nhw "*neidio trwy gylchoedd*" i ddarparu tystiolaeth i "*gyfiawnhau*" derbyn taliadau uniongyrchol ar gyfer eu plant. Teimlai rhieni fod y rheolau ynghylch defnyddio taliadau uniongyrchol yn "rhy gaeth ac nid yn ddigon hyblyg i gyflawni canlyniadau cadarnhaol". Gwelsom sut mae diffyg argaeledd cynorthwywyr personol yn rhwystr i rai plant a theuluoedd rhag cael cymorth drwy daliadau uniongyrchol. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod taliadau uniongyrchol yn cael eu gweld fel rhan annatod o'r broses cynllunio gofal ac fel ffordd bwysig, lle bo'n briodol, i ddiwallu anghenion plentyn a/neu angen gofalwr am gymorth. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod digonedd a dewis o wasanaethau i blant er mwyn gwneud y defnydd o daliadau uniongyrchol yn opsiwn cadarnhaol a dichonadwy ar gyfer cyflawni canlyniadau a nodwyd yn hytrach na'n ddewis olaf oherwydd rhestrau aros neu fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir. Lle mae taliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio, dylid trafod trefniadau wrth gefn gyda'r plentyn a'i rieni/gofalwyr a chynnwys ystyriaeth o drefniadau gofal a chymorth amgen os bydd eu hangen mewn argyfwng.

Er i ni weld tystiolaeth bod asesiadau gofalwyr wedi'u cwblhau, dywedodd pobl wrthym fod arferion o ran cael cynnig asesiad gofalwr yn anghyson. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y cynigir asesiadau gofalwyr, lle bo angen. Dim ond trwy asesu'r hyn sy'n bwysig i ofalwyr y bydd ymarferwyr yn gallu cyfeirio'n briodol neu ddarparu cymorth effeithiol.

Atal

Cryfderau:

Mae gan uwch-arweinwyr, rheolwyr a gwleidyddion ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd diben a swyddogaeth cymorth gynnar a gwasanaethau ataliol. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y rhyngwyneb sylweddol rhwng darparu cymorth cynnar a chynaliadwyedd gwasanaethau plant. Mae wedi nodi bod angen i'w adolygiad o drefniadau a throthwyon gwybodaeth, cyngor a chymorth gynnwys ystyriaeth o gymorth cynnar a gwasanaethau ataliol.

Gwelsom enghreifftiau o sut roedd gwasanaethau ataliol wedi cynorthwyo teuluoedd, gan eu cefnogi gyda magu plant a rhoi cyngor ar strategaethau ymarferol a pherthnasoedd. Mae enghreifftiau o wasanaethau a oedd yn gallu ymateb yn brydlon i ddiwallu angen er gwaethaf lefel uchel o alw. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y

galw sylweddol am gymorth cynnar a gwasanaethau ataliol yn gyffredinol yn fwy na'r cyflenwad ac yn arwain at oedi.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i ddatblygu ei ddarpariaeth breswyl fewnol. Mae'n gwneud cynnydd mewn perthynas â'i waith ailfodelu o ddarpariaeth breswyl, gan gynnwys ymgyrch recriwtio wedi'i thargedu ar gyfer gofalmwr maeth trosiannol. Er mwyn cryfhau'r cymorth therapiwtig i bobl ifanc, mae 11 aelod o staff wedi dechrau cwrs prifysgol Sgiliau Ymarferol mewn Dadansoddi Ymddygiad Cymhwysol.

Beth sydd angen ei wella:

Er gwaethaf dealltwriaeth o bwysigrwydd atal ac ymyrraeth gynnar mewn gwasanaethau plant, mae cyfleoedd i atal anghenion rhag gwaethygu yn her i'r awdurdod lleol o ystyried y nifer cyson uchel o atgyfeiriadau ynghyd â chymhlethdod anghenion plant a theuluoedd, a heriau'r gweithlu.

Mae'r galw am wasanaethau cymorth cynnar wedi cynyddu, gan arwain at restrau aros ar gyfer sawl gwasanaeth. Er enghraifft, ar 22 Ebrill 2022, roedd 119 o atgyfeiriadau yn aros i gael eu dyrannu i'r Tîm Iechyd Meddwl Emosiynol Ieuencid, a'r amser aros yn fras oedd 12 wythnos. Nod gwasanaethau cymorth cynnar yw darparu cymorth ar y cyfle cyntaf i atal problemau rhag gwaethygu, gan arwain at yr angen am wasanaethau statudol. Mae gorfod aros am wasanaethau yn cynyddu'r risg y bydd angen ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol wedi'u targedu ar fwy o blant. Oherwydd pwysau llwyth gwaith a galw cynyddol, nid yw'r awdurdod bob amser yn gallu manteisio ar gyfleoedd i gefnogi'r agenda ataliol mewn ffordd sy'n lleihau'r galw ar wasanaethau gofal a chymorth.

Yn ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2021, canfuom nad oedd teuluoedd bob amser yn cael y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir a bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau gwasanaethau di-dor a chyd cysylltiedig sy'n atal anghenion rhag gwaethygu, ac sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a theuluoedd. Mae hwn yn parhau i fod yn faes i'w wella. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau nad yw cyfleoedd i gefnogi plant a theuluoedd yn cael eu hoedi. Mae effaith plant a theuluoedd yn aros am gymorth yn golygu bod mwy o risg y bydd eu hanghenion yn cynyddu ac y bydd angen cymorth mwy dwys arnynt.

Gwelsom rai enghreifftiau lle na chafodd dangosyddion risg eu hystyried yn llawn, gan arwain at golli cyfleoedd i archwilio risg yn drylwyr, gan gynnwys pryderon hanesyddol a champau gweithredu i liniaru risgiau. Byddai rhai asesiadau/ymyriadau wedi cael eu cryfhau gan ddull mwy cadarn mewn perthynas â chwilfrydedd proffesiynol. Er ei bod yn bwysig gweithio mewn modd optimistaidd gyda theuluoedd, mae hefyd yn hanfodol cydnabod y gall ymddygiad yn y gorffennol fod yn rhagfynegydd ymddygiadau yn y dyfodol. Mae angen cryfhau dadansoddiadau risg o

gam-drin domestig a/neu gam-fanteisio, gan gynnwys ymarferwyr yn cael sgysiau myfyriol gyda rheolwyr ynglŷn â dangosyddion risg a chamau gweithredu.

Bu gostyngiad yn nifer y gofalwyr maeth mewnol ac argaeledd lleoliadau maeth (yn enwedig i blant dros 11 oed). Disgrifir argaeledd a digonolrwydd lleoliadau gofal maeth fel her, gyda'r awdurdod lleol yn cael anawsterau wrth baru rhai plant â lleoliadau gofal maeth priodol. Gwelsom enghreifftiau o sut roedd gofalwyr maeth yn cefnogi rhai plant ag anghenion cymhleth iawn. Mae'n bwysig bod gofalwyr maeth yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i'w galluogi i barhau â lleoliadau maeth, lle bo'n briodol, ac i gynnal eu llesiant eu hunain a llesiant y plentyn. Dywedodd gofalwyr maeth wrthym fod y trefniadau ar gyfer darparu cynlluniau gofal a chymorth plant i ofalwyr maeth wedi gwella, er bod ansawdd yr wybodaeth yn amrywio. Gwelsom rywfaint o oedi wrth ddarparu gwybodaeth berthnasol i ofalwyr maeth. Dywedodd un gofalwr maeth, *"Mae Pen-y-bont ar Ogwr bob amser wedi darparu mynediad at ddogfennau sydd eu hangen arnom i gwblhau ein gwaith. Maen nhw wedi ein gwahodd i gyfarfodydd amlasiantaeth. Mae rhannu gwybodaeth o amgylch y plentyn wedi bod yn dda. Lle rwyf wedi sgorio hyn yn is yw pa mor amserol y mae rhai o'r dogfennau mwy manwl yn cael eu rhannu, megis asesiadau neu ddogfennau cefndir. Mae hyn fel arfer oherwydd cyfyngiadau amser gweithwyr cymdeithasol o ran gallu cyrchu a rhannu dogfennau, nid oherwydd eu bod yn anfodlon gwneud hynny."*

Pan ofynnwyd pa mor hawdd oedd hi i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol, dywedodd 30% o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg pobl ei bod yn 'ddim yn hawdd' a dywedodd 33% ei bod yn 'anodd iawn'. Pan ofynnwyd pa mor ddefnyddiol oedd yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a gynigir gan y gwasanaethau cymdeithasol, ymatebodd 63% o'r ymatebwyr naill ai 'ddim yn ddefnyddiol o gwbl' neu 'ddim yn ddefnyddiol'. Dywedodd 55% o'r ymatebwyr nad oedd y gwasanaethau cymdeithasol wedi trafod pa opsiynau cymorth oedd ar gael iddynt, er enghraifft gan deulu/frindiau / y gymuned. Mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau hygyrchedd a darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth.

O fis Ionawr 2022 ymlaen, daeth sefyllfa'r gweithlu yn y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn fwy anodd. Unwaith yr oedd uwch-reolwyr yn ymwybodol o effaith problemau'r gweithlu, cymerwyd camau cyflym i nodi graddau'r problemau a rhoi camau ar waith i fynd i'r afael â'r diffygion. Roedd uwch-reolwyr wedi cydnabod nad oedd y fframwaith sicrhau ansawdd yn darparu asesiad cywir o'r gyfradd brosesu neu ansawdd y gwaith. Mae gwaith wedi dechrau i gryfhau'r fframwaith sicrhau ansawdd. Er bod ystod y data perfformiad a'r gwaith craffu arno bellach yn gwella, nid yw systemau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd wedi'u halinio'n llawn eto. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi hwn fel maes i'w wella ac wedi penodi rolau sicrhau ansawdd a pholisi i fynd i'r afael â'r materion hyn ac i adolygu polisiau a gweithdrefnau perthnasol i sicrhau hefyd y cysylltiad angenrheidiol rhwng sicrhau ansawdd, polisi, a hyfforddiant. Mae angen i arweinwyr corfforaethol, rheolwyr, ymarferwyr, a phartneriaid, gan gynnwys gwasanaethau cymorth cynnar, archwilio a defnyddio trefniadau sicrwydd o'r fath yn rheolaidd ac yn gadarn er mwyn deall

cydymffurfedd â gofynion statudol, ansawdd arferion, a bylchau/pwysau yn y gwasanaethau a ddarperir.

Partneriaethau ac integreiddio

Cryfderau:

Mae perthynas waith gadarnhaol gyda'r bwrdd diogelu rhanbarthol ac awdurdodau lleol cyfagos yn sicrhau bod gan y gwasanaethau plant rwydwaith cymorth proffesiynol y gallant ei ddefnyddio i gael arbenigedd, gwybodaeth, cymorth, a her adeiladol.

Cynhaliwyd cyfarfodydd grŵp gweithredol ar y cyd bob pythefnos gyda phartneriaid fel rhan o'r ymateb i'r digwyddiad critigol yn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth. Clywsom sut yr oedd y cyfarfodydd hyn yn darparu her gan bartneriaid ond hefyd yn dangos yr ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ac i wneud gwelliannau i blant a theuluoedd.

Siaradodd partneriaid yn gadarnhaol yn bennaf mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Disgrifiodd rhai partneriaid welliant diweddar yn y diwylliant o fewn gwasanaethau cymdeithasol, a chyfeiriwyd at well cyfathrebu fel tystiolaeth o hyn. Soniodd partneriaid am fod eisiau cymryd rhan a'u bod yn fodlon helpu i gefnogi gwelliant.

Er gwaethaf y pwysau presennol, mae tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth i wella polisïau a systemau a chyd-ddealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau o fewn y broses ddiogelu. Mae trefniadau ar y gweill ar gyfer hyfforddiant amlasiantaeth ar y cyd i ailsefydlu perthnasoedd a chynnig arweiniad ar gydweithio a gweithdrefnau o amgylch cyfarfodydd strategaeth a rhannu gwybodaeth a phrotocolau uwch gyfeirio.

Yn gyffredinol, manteisir yn gadarnhaol ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ar lefel weithredol. Gwelsom dystiolaeth bod yr heddlu a gwasanaethau iechyd ac addysg yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n ymwneud â diogelu.

Mae cydleoeli rhai timau ag ymarferwyr o wahanol sectorau a gwasanaethau yn helpu i hwyluso gweithio mewn partneriaeth, lle mae cyfleoedd rheolaidd i gyfarfod yn rheolaidd, naill ai'n gorfforol neu'n rhithwir, a chydweithio.

Beth sydd angen ei wella:

Clywsom sut roedd pwysau yn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a heriau o ran y gweithlu wedi arwain at rai tensiynau mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth ar lefel weithredol. Teimlai rhai partneriaid fod ansawdd gweithio mewn partneriaeth yn dibynnu ar berthnasoedd unigol yn hytrach na chael ei ymwreiddio'n dda yn niwylliant y gwasanaeth. Gwnaethant gyfeirio at drosiant staff a phroblemau yn y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, gan gynnwys peidio

â chael yr wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn atgyfeiriadau ac anawsterau wrth gysylltu â phobl, fel rhwystrau i weithio mewn partneriaeth yn effeithiol.

Er gwaethaf gwelliannau diweddar, nododd staff a phartneriaid fod rhai materion yn ymwneud â throthwyon anghyson a safonau arferion yn parhau. Bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei strategaeth gyfathrebu yn ddigon cadarn i gyfleu'n effeithiol i staff a phartneriaid y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant a'r datblygiadau niferus sy'n digwydd / y bwriedir eu cyflawni. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o drothwyon a mynediad at wasanaethau. Mae'n bwysig bod partneriaid allweddol yn ymwybodol o ddatblygiadau gwasanaeth a, lle bo'n briodol, yn cymryd rhan ynddynt. Dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ar y cyd.

Mae'n bwysig rhannu'r hyn a ddysgir o adolygiadau ac archwiliadau gyda staff a phartneriaid er mwyn nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella er mwyn diogelu plant.

Llesiant

Cryfderau:

Yn dilyn digwyddiadau hollbwysig, mae'r awdurdod lleol wedi cynnal adolygiadau ac archwiliadau perthnasol sydd wedi amlygu meysydd o arfer da a meysydd i'w gwella. Mae cynlluniau gweithredu wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith. Mae systemau ac offerynnau i gefnogi arferion yn cael eu hadolygu a'u datblygu.

Ers ein harchwiliad sicrwydd ym mis Ebrill 2021, mae dirprwy bennaeth gwasanaethau plant wedi'i benodi i gryfhau gallu rheolaethol yn y gwasanaethau plant.

Mae sefydlu tîm rheoli gofal yn ddiweddar, cael staff dros ben yn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth, a rhoi cymorth rheoli ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn dechrau arwain at brydlondeb gwell o ran sgrinio, llwythi achosion sy'n haws eu trin, a gwell goruchwyliaeth gan reolwyr. Mae'r gwelliannau hyn yn rhai diweddar iawn, ac mae angen mwy o waith i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwreiddio a'u cynnal.

Mae rheolwr tîm peripatetig wedi'i recriwtio'n ddiweddar i wella'r cymorth rheoli sydd ar gael i dimau, fel bod ymarferwyr yn gallu cael gafael ar gyngor, arweiniad a chymorth proffesiynol cyn mynychu cyfarfodydd porth cyfreithiol. Mae'r rheolwr tîm peripatetig yn cefnogi goruchwyliaeth gan reolwyr. Mae tystiolaeth a gafwyd yn dangos gwerth y gwaith hwn o ran darparu sicrwydd a goruchwyliaeth a nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen.

Lle mae angen amddiffyn plant, mae trafodaethau strategaeth yn amserol ar y cyfan ac yn cael eu mynychu gan weithwyr proffesiynol perthnasol. Rhennir gwybodaeth i lywio penderfyniadau a chamau gweithredu i ddiogelu plant. Mae ymholiadau

amddiffyn plant dilynol o gymorth wrth wneud penderfyniadau am y camau nesaf. Mae'r templed ar gyfer y cyfarfodydd strategaeth yn darparu awgrymiadau defnyddiol ond nid yw'r cofnod bob amser yn nodi'r rhesymeg dros wneud penderfyniadau.

Mae cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a chynadleddau adolygu yn amserol ac yn cael eu mynychu gan bartneriaid a theuluoedd. Mae cysondeb y trefniadau cadeirio yn darparu parhad. Cytunir ar gynlluniau amddiffyn plant perthnasol a'u hadolygu mewn cynadleddau amddiffyn plant.

Mae swyddogion adolygu annibynnol yn llenwi ffurflenni monitro ar ôl adolygiadau o gynadleddau, gan amlygu unrhyw ddiffygion mewn perthynas â chydymffurfedd/arferion er mwyn gallu cymryd camau dilynol.

Yn ystod ein harchwiliad sicrwydd ym mis Ebrill 2021, amlygwyd darpariaeth cymorth ymddygiadol arbenigol ar gyfer plant anabl ag anghenion cymhleth gan rai ymarferwyr fel maes i'w wella. Yn dilyn yr archwiliad sicrwydd, cymerwyd camau i wella'r cymorth rheoli ymddygiad a gynigir i rieni i'w cynorthwyo i gefnogi eu plentyn ac atal argyfwng. Clywsom sut yr oedd pobl ifanc â phrofiad o ofal wedi elwa ar y cymorth therapiwtig a gawsant.

Beth sydd angen ei wella:

Mae meysydd perfformiad allweddol wedi cael eu heffeithio gan gynnydd mewn galw a phwysau ar y gweithlu. Dengys data perfformiad y bu dirywiad mewn perfformiad mewn rhai meysydd. Mae angen gwneud rhagor o waith i wella prydlondeb cyflawni cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â chwblhau asesiadau, cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol, ymweliadau statudol, ac adolygiadau gofal a chymorth.

Gwelsom enghreifftiau o ffurflenni monitro a gwblhawyd gan swyddogion adolygu annibynnol a oedd yn amlygu diffygion mewn perthynas â chydymffurfio â chyfrifoldebau statudol. Mae angen i reolwyr sicrhau y cymerir camau effeithiol prydlon i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodir. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau ei hun bod y systemau sydd ar waith i fonitro cydymffurfedd ac arferion yn llywio ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i arferion ac yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae hwyluso cyswllt dan oruchwyliaeth rhwng plant ac aelodau o'u teuluoedd weithiau'n her i'r awdurdod lleol. Gwelsom/clywsom dystiolaeth o rwystredigaeth aelod teulu ynghylch y byr rybudd a roddwyd i gadarnhau'r trefniadau cyswllt ac na allai cyswllt ddigwydd oherwydd nad oedd gweithiwr cymdeithasol ar gael i oruchwyllo'r ymweliad. Disgrifiodd gweithwyr cymdeithasol sut roedd y dasg o oruchwyllo cyswllt, oherwydd nad oedd gweithwyr cyswllt ar gael, yn rhoi pwysau ychwanegol arnynt. Mae'r trefniadau presennol sydd ar waith ar gyfer cyswllt dan oruchwyliaeth yn amlwg yn cael effaith andwyol ar ymarferwyr ond, yn bwysicach fyth, ar blant a theuluoedd.

Mae angen i gofnodion ysgrifenedig fod o ansawdd uchel cyson, fel eu bod yn darparu llwybr archwilio hygyrch cywir a disgrifiad o'r penderfyniadau a wneir. Dylent roi disgrifiad clir o ffocws ac effaith unrhyw ymyriadau, dadansoddiad clir o sefyllfaoedd, gan gynnwys risgiau ac anghenion, a phrofiad bywyd o ddydd i ddydd y plentyn, yr hyn sydd wedi gweithio / heb weithio'n dda, y camau gweithredu gofynnol, ac amserlenni ar gyfer gweithredu. Gwelsom enghreifftiau lle byddai plant a theuluoedd wedi elwa ar ymarferwyr yn meddwl yn feirniadol yn fwy cyson ynglŷn â'r potensial ar gyfer niwed, cynlluniau wrth gefn, a'r cymorth ehangach sydd ar gael. Roedd ansawdd yr wybodaeth yn ymwneud â nodi cryfderau, rhwystrau a risgiau yn amrywio o ran ansawdd a manylder yr wybodaeth a gynhwyswyd mewn cofnodion gofal cymdeithasol.

Gwelsom rai enghreifftiau o gofnodion mewn perthynas ag achosion o blant yn mynd ar goll a phlant a oedd mewn perygl o gam-fanteisio nad oeddent yn ddigon manwl i'n sicrhau bod camau priodol wedi'u cymryd mewn modd amserol i liniaru risgiau i blant. Nid oedd bob amser yn amlwg pa wybodaeth a rannwyd a gyda phwy na'r camau a gymerwyd. Mae'r awdurdod lleol yn adolygu ei brosesau Cam-fanteisio'n Rhywiol ar blant a Cham-fanteisio'n Droseddol ar blant fel rhan o'i strategaeth gam-fanteisio. Mae cyfres o ddogfennau wedi'u creu, ac mae un ohonynt yn rhaglen waith ymyrraeth uniongyrchol sydd wedi'i theilwra ar gyfer y plentyn. Mae'r awdurdod yn edrych ar sut y gall gryfhau cysondeb a hwyluso'r gwaith o driongli/mapio gwybodaeth cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a cham-fanteisio troseddol ar blant. Mae'n bwysig bod ymyriadau'n parhau i fod yn canolbwyntio ar y plentyn a dylai plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu sy'n cael eu cam-drin drwy gam-fanteisio'n rhywiol ar blant a/neu gam-fanteisio troseddol ar blant dderbyn gofal, cymorth ac amddiffyniad yn unol â chanllawiau statudol a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Canfuom yn y canolfannau diogelu lleol fod gweithwyr cymdeithasol yn y flwyddyn gyntaf o ymarfer yn cynnal achosion amddiffyn plant ac achosion yn y broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.³ Er na nododd gweithwyr yn y flwyddyn gyntaf o ymarfer fod hyn yn bryder, mae'n bwysig bod y rhwystrau a gwrthbwyssau angenrheidiol ar waith i sicrhau cymhwysedd a hyder staff sy'n gwneud gwaith o'r fath. Mae goruchwyliaeth a throsolwg cyson o ansawdd da yn ganolog i hyn. Oherwydd y diffygion a nodwyd gennym mewn cofnodion goruchwyllo a throsolwg rheolwyr, ni allem fod yn sicr bod gweithwyr sydd newydd gymhwyso yn cael eu goruchwyllo'n briodol a bod goruchwyliaeth ddigonol yn cael ei darparu. Dylai'r awdurdod lleol gymryd camau i sicrhau ei hun ynghylch y trefniadau goruchwyllo a throsolwg sydd ar waith ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso a gweithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant.

³ Mae'r broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn digwydd pan fo'r awdurdod lleol yn pryderu am lesiant plentyn ac, oni bai fod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon hynny a'u lleddfu, gall yr awdurdod lleol ystyried gwneud cais i'r llys.

Y camau nesaf

Disgwylw'n i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ystyried y meysydd a nodwyd i'w gwella yn yr adroddiad hwn a chymryd y camau gofynnol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd AGC yn monitro cynnydd a chyflymder y gwelliant a'r cyflawniad mewn perthynas â'r cynlluniau gweithredu a nodwyd trwy ein gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus.

Methodoleg

Gwaith maes

Casglwyd y rhan fwyaf o dystiolaeth arolygu trwy adolygu profiadau plant trwy adolygu ac olrhain eu cofnodion gofal cymdeithasol. Fe wnaethom adolygu 59 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain deg o'r rhain.

Gwnaethom siarad ag ystod o weithwyr yn yr awdurdod lleol.

Gwnaethom siarad ag ystod o sefydliadau partner, yn cynrychioli asiantaethau statudol a thrydydd sector.

Gwnaethom siarad â phlant a'r rhai sydd wedi gadael gofal, rhieni/gofalwyr, a gofalwyr maeth.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion goruchwylio staff.

Gwnaethom adolygu dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.

Gwnaethom roi arolygon i staff, sefydliadau partner, a phobl / cynrychiolwyr pobl a oedd yn cyrchu gwybodaeth, cyngor a/neu gymorth gan yr awdurdod lleol.

Gwnaethom weld Cyfarfod Grŵp Llywio Gweithredol Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg, Cyfarfod Aur Digwyddiadau Critigol gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yr awdurdod lleol, Cyfarfod Bwrdd Prosiect y Gweithlu, a Chyfarfod Bwrdd Strategol Gwella Canlyniadau Gofal Cymdeithasol Plant.

Diolchiadau

Hoffai AGC ddiolch i staff, partneriaid, a phobl a roddodd o'u hamser i roi eu sylwadau ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn.